Cael eich cynnwys mewn astudiaeth yn edrych ar dorri clun

**Categori cyfle**

Gwyrdd

**Dyddiad cau:**

**12:00 ar 2 Chwefror 2021**

**Pwy sy'n cael cymryd rhan?**

Unigolion sydd:

- wedi cael profiad o dorri clun neu o ofalu am rywun sydd wedi torri clun

  **a/neu**
- â phrofiad o gael parafeddygon yn gofalu amdanyn nhw ar gyfer unrhyw fath o dorasgwrn a oedd yn galw am leddfu'r boen

  **a/neu**
- wedi cael profiad o driniaeth â morffin ar gyfer unrhyw fath o dorasgwrn a oedd yn galw am leddfu'r boen

Mae angen ichi fod wedi cofrestru â'r gymuned gynhwysol i gyflwyno datganiad o ddiddordeb. Gwahoddir aelodau'r cyhoedd sydd heb gofrestru i lenwi ffurflen gofrestru i ddod yn rhan o'r gymuned gynhwysol.

**Gyda phwy y mae'r cyfle?**

Canolfan Cymru ar gyfer Ymchwil Gofal Sylfaenol a Gofal Brys (PRIME)

**Lleoliad**

Cynhelir cyfarfodydd yn rhithwir

**Gwybodaeth Gefndir**

Mae torri clun yn anaf cyffredin iawn i bobl hŷn. Trist dweud ydy y bydd tua un ym mhob tri o gleifion sy'n torri eu clun yn marw o fewn blwyddyn ac mae llawer o gleifion o bosibl yn colli symudedd ac annibyniaeth.

Weithiau, dydy'r ymdrechion i leddfu'r boen cyn i'r claf gyrraedd yr ysbyty ddim yn ddigon ac mae'n gallu achosi sgil-effeithiau a allai arafu adferiad.

Bwriad y prosiect ymchwil ydy profi p'un a ydy rhoi pigiad anesthetig lleol i mewn i'r ardal o'r clun o'r enw bloc nerfau Fascia Iliaca (FICB), y bydd parafeddygon yn ei roi yn y fan a'r lle y digwyddodd yr anaf, yn ddiogel ac yn effeithiol.

**Beth y mae hyn yn galw amdano?**

Mae tîm yr astudiaeth yn edrych am 3 unigolyn i gyd:

- **1 person** i ymuno â'u **pwyllgor llywio'r treial**

Bydd y rôl hon yn darparu trosolwg o'r treial. Mae tîm yr astudiaeth yn chwilio am un unigolyn i fynychu diwrnod o gyfarfodydd y flwyddyn ynghyd ag un diwrnod y flwyddyn i ddarllen dogfennau wrth baratoi.

- **2 o bobl** i ymuno â'u **pwyllgor moeseg a monitro data**.

Bydd y rôl hon yn darparu trosolwg o'r treial ac yn sicrhau bod y treial yn cael ei gynnal yn ddiogel. Mae tîm yr astudiaeth yn edrych am ddau unigolyn i fynychu cyfarfod am ddiwrnod bob blwyddyn yn ogystal ag un diwrnod y flwyddyn i ddarllen dogfennau i baratoi ar gyfer hyn

**Caiff y treial ei ariannu am 4 blynedd.**

Pan fyddwch chi'n cyflwyno datganiad o ddiddordeb, a fyddech cystal â rhoi gwybod i ni y rôl sydd o ddiddordeb i chi.

**Pa dâl sydd ar gael am gymryd rhan?**

**Bydd Prifysgol Abertawe**

- yn cynnig tâl am amser o hyd at £20 yr awr cyn y caiff y prosiect ei ariannu (gall pobl ofyn am lai os ydyn nhw'n derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth).

Cyfeiriwch at ein canllawiau i dreuliau a thaliadau am amser, sy'n cynnwys gwybodaeth am y broses cyn cymeradwyo treuliau.

I'r rheini sy'n derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth, mae cyngor cyfrinachol ar gael trwy'r Gwasanaeth Cyngor Ynghylch Budd-daliadau ar gyfer Cymryd Rhan.

- Fel aelod cofrestredig o'r gymuned, fe fydd cefnogaeth y tîm cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd a rhaglen hyfforddiant Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru hefyd ar gael ichi.

**Pa gefnogaeth arall sydd ar gael?**

Bydd ymchwilydd wedi'i enwi ar y prosiect yn bwynt cyswllt ar gyfer aelodau'r cyhoedd. Bydd yn darparu cefnogaeth a hyfforddiant yn ôl y galw o du'r cyfranogwyr cyhoeddus, gan gynnwys briffio cyn ac ar ôl cyfarfodydd i sicrhau bod y person yn gyfforddus â'r broses.

**Sut ydw i'n cofrestru fy niddordeb?**

Llenwch ffurflen mynegi diddordeb (EOI)

Mae mynediad i ddatganiadau o ddiddordeb yn ddiogel ac wedi'i gyfyngu, ac maent yn cael eu trin yn gyfrinachol.

**Y Camau Nesaf**

Mae’r tîm cynnwys â’r cyhoedd yn hysbysebu’r cyfle hwn ar ran arweinydd y cyfle (ymchwilydd a/neu weithiwr proffesiynol arall) i ddod o hyd i aelodau o’r cyhoedd i’w cynnwys yn eu gwaith.

Fe fyddwn ni’n adolygu’r datganiadau o ddiddordeb ac yn anfon rhai priodol at arweinydd y cyfle (ymchwilydd a/neu weithiwr proffesiynol arall).

Fe fydd naill ai’r tîm neu arweinydd y cyfle (ymchwilydd a/neu weithiwr proffesiynol arall) yn cysylltu â chi.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi anfon e-bost atom neu ffoniwch 02920 230457.